Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

**10/07/26**

**Annwyl Rieni,**
Wel am wythnos brysur a llwyddiannus yma yn Ysgol Pen Barras!

**Eisteddfod Ryngwladol Llangollen-** Am ddiwrnod gwefreiddiol! Cawsom y fraint o gyflwyno **Neges Ewyllys Da yr Ŵyl i'r Byd** ddydd Mercher, 8 Gorffennaf, a hynny ddwywaith yn ystod y dydd o flaen pafiliwn llawn dop bob tro. Diolch yn fawr iawn i Mrs Helen Williams a Miss Elin Parry am eu gwaith yn ysgrifennu a chynhyrchu'r cyflwyniad.Pob lwc i'r plant sy'n perfformio'r neges unwaith eto yfory am y tro olaf. Edrychwn ymlaen at eich gweld yn Llangollen yn y bore!

Yna, yn y prynhawn, llwyddodd y côr i gipio'r **wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Gorawl Ysgolion Cynradd**. Rydym wedi cystadlu'n gyson yn y gystadleuaeth hon ers dros ddegawd erbyn hyn, ond dyma'r tro cyntaf i ni gyrraedd y brig. Roedd yn sioc hyfryd ac annisgwyl! Yn dilyn hynny, bu'n rhaid cysylltu â rhieni ar frys i rannu'r newyddion cyffrous fod angen i'r plant ddychwelyd y noson honno i gystadlu eto yng **Nghystadleuaeth Côr Ieuenctid y Byd** – profiad arbennig iawn i bawb.

Diolch yn fawr i Mrs Sioned Roberts am ei harweinyddiaeth ac i Mrs Elin Owen am gyfeilio mor gelfydd. Roedd y llwyddiant hwn yn wir yn ffrwyth blynyddoedd maith o waith caled, ymroddiad a chefnogaeth. Diolch hefyd i'r rhieni am eu cydweithrediad arbennig wrth sicrhau bod y plant yn gallu dychwelyd ar fyr rybudd i berfformio unwaith eto.**Llongyfarchiadau enfawr i bawb!**

**Gwasanaeth Ffarwelio Blwyddyn 6-** Cawsom fore hyfryd yng nghwmni staff, disgyblion a rhieni wrth ddathlu diwedd cyfnod plant Blwyddyn 6 eleni. Cafwyd perfformiadau hwyliog, atgofion melys a digon o chwerthin.

Diolch i Mrs Williams a staff yr Uned Dan 12 am baratoi'r achlysur, ac i'r plant am berfformio mor wych. Dymunwn bob llwyddiant i chi wrth i chi gychwyn ar eich taith newydd yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi. Byddwn yn eich colli'n fawr.

**Dydd Llun, 13 Gorffennaf – Eisteddfod yr Ysgol-** Ddydd Llun nesaf byddwn yn cynnal ein Heisteddfod Ysgol yma ym Mhen Barras. Mae addewid o wledd o ganu, dawnsio a pherfformio. Tybed a fydd teilyngdod yn y seremoni gadeirio eleni?
**Glan-llyn – 14 Gorffennaf- Ar** ddydd Mawrth nesaf bydd plant yr Uned Dan 9 yn treulio'r diwrnod yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn. Mwynhewch y diwrnod, blant!

**Diwedd y Tymor-** Bydd Ysgol Pen Barras yn cau ar gyfer gwyliau'r haf ddydd Gwener, 17 Gorffennaf.
Mwynhewch y penwythnos.
**Yn gywir,**
**Dyfan Phillips**
Pennaeth
Ysgol Pen Barras

Ffordd Glasdir,
Rhuthun,
Sir Ddinbych,
LL15 1QQ

# Ysgol Pen Barras

Ffôn: 01824 704 129
E-bost: pen.barras@sirddinbych.gov.uk
Pennaeth: Mr Dyfan Mael Phillips

***10/07/26***

***Dear Parents,***
*What a busy and successful week it has been here at Ysgol Pen Barras!*

***Llangollen International Eisteddfod-*** *What an exciting day! We had the privilege of presenting the* ***International Goodwill Message to the World*** *on Wednesday, 8 July, performing it twice during the day in front of a packed pavilion on both occasions. Many thanks to Mrs Helen Williams and Miss Elin Parry for their work in writing and producing the presentation.*
*Good luck to the children who will be performing the message one final time tomorrow. We look forward to seeing you in Llangollen in the morning!*
*Later in the afternoon, the choir achieved first place in the* ***Primary Schools Choral Competition****. We have taken part in this competition consistently for over a decade, but this is the first time we have reached the very top. It was a wonderful and unexpected surprise!*

*Following this success, we had to contact parents at short notice to share the exciting news that the children would need to return that evening to compete again in the* ***Choir of the World Youth Competition*** *– a truly special experience for everyone involved.*
*Many thanks to Mrs Sioned Roberts for her leadership and to Mrs Elin Owen for her excellent accompaniment. This achievement is a testament to many years of hard work, dedication and support. Thank you also to our parents for their outstanding cooperation in ensuring that the children could return at short notice to perform once again.*
***Huge congratulations to everyone involved!***

***Year 6 Leavers' Service-*** *We enjoyed a wonderful morning with staff, pupils and parents as we celebrated the end of our Year 6 pupils' journey at Ysgol Pen Barras. There were entertaining performances, fond memories and plenty of laughter. Thank you to Mrs Williams and the Under 12 Unit staff for organising the occasion, and to the children for performing so brilliantly. We wish you every success as you begin your new journey at secondary school in September. We will miss you all greatly.*

***Monday, 13 July – School Eisteddfod-*** *Next Monday, we will be holding our annual School Eisteddfod here at Pen Barras. We are looking forward to a wonderful showcase of singing, dancing and performance. Will the Chairing Ceremony judges find a worthy winner this year?*

***Glan-llyn – 14 July-*** *Next Tuesday, pupils from the Under 9 Unit will spend the day at the Urdd's Glan-llyn Residential Centre. Enjoy the day, everyone!*

***End of Term-*** *Ysgol Pen Barras will close for the summer holidays on* ***Friday, 17 July****.*

*Enjoy the weekend.*

*Yours sincerely,*
***Dyfan Phillips***
*Headteacher*
*Ysgol Pen Barras*